**Datganiad**

Cafodd cais gan GMG Radio i newid fformatau Real Radio De Cymru a Real Radio Gogledd a Chanolbarth Cymru ei drafod gan y Pwyllgor Trwyddedu Radio ar 2 Awst 2010.

Roedd GMG yn gofyn am gael rhannu pob rhaglen rhwng y ddwy orsaf er mwyn creu, i bob pwrpas, wasanaeth cenedlaethol newydd i Gymru, ac i ganiatáu iddynt gyd-leoli. Yn y cais hefyd gofynnwyd am gael lleihau nifer y rhaglenni a wneir yn lleol yr oedd yn ofynnol eu darparu dan bob trwydded o'r 10 awr gyfredol bob diwrnod gwaith i saith awr bob dydd, yn gyfnewid am ymrwymiad i ddarparu bwletinau newyddion lleol o leiaf bob awr yn ystod y dydd ar ddiwrnodau gwaith ac ar oriau brig ar benwythnosau. Cyflwynwyd cais terfynol, cysylltiedig, i ddisodli'r gofyniad presennol yn y ddau Fformat i gynnwys "gwybodaeth ranbarthol" gyda rhwymedigaeth i gynnwys "gwybodaeth am Gymru".

Gwnaeth GMG gais am y newidiadau amrywiol hyn i'r Fformat yn unol â chanllawiau lleolrwydd a gyhoeddwyd gan Ofcom. Yn benodol, roedd y canllawiau yn nodi nad oedd yn rhaid i rai gorsafoedd analog 'rhanbarthol' ddarparu rhaglenni rhanbarthol arbennig mwyach ar gyfer eu hardaloedd trwyddedig unigol ar yr amod bod y gwasanaeth cyfunedig sy'n deillio wedyn ar gael yn genedlaethol ar DAB. Mewn perthynas â thrwyddedau De Cymru a Gogledd a Chanolbarth Cymru, ystyr 'cenedlaethol' yw pob amlblecs DAB rhanbarthol a/neu leol sy'n darlledu yng Nghymru. Ar ben hynny, oherwydd anghenion penodol y gwledydd, mae'r canllawiau'n nodi y dylai gorsafoedd rhanbarthol yng Nghymru barhau i ddarparu o leiaf saith awr y dydd o raglenni o Gymru.

Roedd Ofcom o'r farn y byddai'r cais yn newid natur gwasanaeth y ddwy orsaf yn sylweddol (gweler pwynt a. isod), ac felly yn unol â'r gofynion statudol ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch y newidiadau arfaethedig am bedair wythnos.

Cafwyd pedwar ymateb i'r ymgynghoriad. Mae modd gweld ymatebion nad ydynt yn gyfrinachol, ynghyd â'r ddogfen ymgynghori, yn:

http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/realradio/

Gall Ofcom gydsynio i newidiadau i Fformat dan amodau sydd wedi'u cynnwys ym mhob trwydded radio masnachol analog lleol, yn unol ag Adran 106 (1A) Deddf Darlledu 1990, os yw'n fodlon bod o leiaf un o'r meini prawf canlynol wedi'i fodloni:

a. Ni fyddai'r fformat newydd yn newid natur y gwasanaeth yn sylweddol;
b. Ni fyddai'r newid yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni a fyddai ar gael yn yr ardal drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol.
c. Byddai'r newid yn ffafriol i gynnal neu hyrwyddo cystadlu teg neu effeithiol, neu
d. Mae tystiolaeth bod galw sylweddol am y newid ymysg unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd y byddai'r newid yn effeithio arnynt, neu gefnogaeth sylweddol i'r newid hwnnw.
e. Byddai'r newid yn deillio wrth i raglenni yn y gwasanaeth trwyddedig beidio â chael eu gwneud ar safleoedd yn yr ardal, neu byddai'r rhaglenni hynny yn parhau i gael eu gwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardal a gymeradwywyd gan Ofcom.

Yn yr achos hwn, roedd y Pwyllgor yn fodlon na fyddai'r newid, o ran pob trwydded, yn cyfyngu ar yr amrywiaeth o raglenni yn yr ardal drwy gyfrwng gwasanaethau radio annibynnol perthnasol (adran 106 (1A)(b) oherwydd bydd pob agwedd ar Natur Gwasanaeth pob gorsaf, ac eithrio sylw golygyddol, yn aros yr un fath. Yn benodol, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai colli unrhyw 'wybodaeth ranbarthol' o'r ddau wasanaeth yn cael ei gydbwyso drwy ennill gwybodaeth am Gymru, ac na fyddai'r amrywiaeth gyffredinol o raglenni yn cael ei chyfyngu. Ar ben hynny, fel y nodwyd uchod, roedd y cais yn gyson â chanllawiau lleolrwydd a gyhoeddwyd gan Ofcom, ac felly roedd y Pwyllgor yn teimlo eu bod yn gallu cytuno â'r cais.